Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 2.] CHWEFROR, 1907. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
O For i Deifi.
Ymson y Myfyriwr.
Deffroad Mawr y Ganrif.
Y Parch R. J. Campbell a'r Dduwinyddiaeth Newydd.
Y Dduwinyddiaeth Newydd.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

D.D., Gwardafolog; Mrs. R., Ysguborfawr; J.T.D., Carmarthen; Dr. G., Pontardulais; S.D., Shipley; J.R.T., Velindre; D.T., Prengwyn; E.J., Pensarn; W.P.W., Bangor; C.E., Merthyr; S.D., Cilfallen; E.P.J., Pontypridd; J.J., Aberaman; D.D., Felinfach; Mrs. J., Gelli, Llansamlet; J.R., Pontbrenllwyd; W.J., Cefncoed; E.J., Bank.

D.S.—Achwynir gan rai dosparthwyr nad yw y derbynwyr yn brydlon gyda'u taliadau. Da chwi, ddarllenwyr, rhoddwch bob help i wneud gwaith y dosbarthwyr yn bleser ac nid yn boen.—Gol.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1907. [CYF. VII. RHIF 2.

NODION Y MIS.

DYMA farn Mr. O. M. Edwards yn y "Cymru" am Ionawr ar Eiriadur Beiblaidd Thomas Charles o'r Bala sydd wedi bod mor boblogaidd am ganrif o amser, wedi myned trwy amrywiol argraffiadau, ond yn aros o hyd heb ei ddiwygio i gyfarfod a chyfnewidiadau angenrheidiol yn syniadau ysgolheigion am y Beibl:—"Boddlonir ar Eiriadur Charles, fel pe na buasai darganfyddiadau canrif gyfan,—y ganrif gyfoethocaf mewn darganfyddiadau,—yn werth sylw." Yr ydym wedi ysgrifenu nodion tebyg i'r uchod lawer gwaith yn yr YMOFYNYDD, yn cyfeirio yn neillduol at y Geiriadur, Esponiad Beirniadol Idrisyn a llyfrau cyffelyb a adgynyrchir wrth y canoedd o flwyddyn i flwyddyn, a brynir gan ysgolion Sul y wlad, a ddefnyddir fel trysorfeydd gwybodaeth ysgrythyrol gan athrawon a phenau teuluoedd, ond nad ydynt mewn gwirionedd yn werth y cloriau sydd am danynt. 'Does neb yn gofalu beth mae'r YMOFYNYDD yn ddweyd, ond golyga rywbeth pan yr ymosodir gan awdurdod fel Mr. Edwards ar un o'n gwendidau fel cenedl.

Paham mae Cymru, dywedwch, mor radicalaidd yn ei gwleidyddiaeth a'i heglwysyddiaeth ac mor anobeithiol o geidwadol yn ei duwinyddiaeth? Mae Methodistiaid Calfinaidd y Deheudir wedi cael coleg newydd yn Aberystwyth, awyrgylch newydd, cychwyniad newydd, pob bendith a braint i wneud eu cenhadwri yn yr ugeinfed ganrif yn bwer ofnadwy er dyrchafiad meddyliol a moesol y genedl; ond er mwyn cadw'r myfyrwyr yn *straight*, a sicrhau pwys y *dead hand* fel hunllef ar bob gogwyddiad rhyddfrydig o'u heiddo, darllenwn yn y "Goleuad" am Ionawr 23ain fod Mrs. Davies, Llandinam, wedi cyflwyno i bob myfyriwr gopi o lyfr Dr. Orr, Glasgow, ar

The Problem of the Old Testament. Mae Dr. Orr wedi cymeryd at y gwaith o sefyll ar draeth yr Atlantic a *sweeping brush* yn ei law i atal y llanw rhag dyfod i fewn. Ac nid yr YMOFYNYDD yn unig sydd yn dweyd hyny. Peth annisgwyliadwy oedd gosod y fath lyfr yn nwylaw myfyrwyr mewn coleg duwinyddol ar ol yr adolygiad o hono yn yr *Expository Times.*

Dywed y Parch. Dr. R. F. Horton, un o weinidogion blaenaf yr Anibynwyr Saesneg, "fod Undodiaeth mewn un ffurf neu'r llall yn cyfiwyno ei hun i sylw a deall y wlad gyda nerth yn gystal a didwylledd a wnant argraff ddofn ar luaws mawr o Gristionogion proffesedig. Ymddengys imi na welsom Undodiaeth mor hyderus a beiddgar oddiar amser Channing a Parker yn yr America. Ni ddylem adael ein pobl ieuainc mewn ansicrwydd. Ar y cwestiwn hwn dylem geisio addysgu a chynorthwyo y naill y llall. Rhaid i ni wrth wirionedd ar bob cost." Nis gwyddom pa arwydd neillduol o yni a bywyd ar ran Undodiaeth sydd wrth wraidd y sylw uchod. O bosibl mai cenhadwri y *van* ydyw, sydd wedi bod mor llwyddianus yn ngogledd Lloegr, ac yn debyg o agor tudalen newydd yn hanes Undodiaeth yr ugeinfed ganrif. Erbyn hyn mae un *broblem* beth bynag wedi ei phenderfynu. Nid yw Undodiaeth wedi ei bwriadu i ymgnawdoli mewn enwad cryf gyda lluosogrwydd o eglwysi yn gwneud i fyny drefniant cydnerth a phwerus. Ond ni rwystra y diffyg hwn iddi fod yn *force* fel mae wedi bod, ac yn fwy felly pan y trefnir iddi weithio ar linellau mwy cydnaws a'i hyspryd. Mae un *van* wedi gwneud prawf llwyddianus am un tymhor—mor llwyddianus fel mae y Gymdeithas Undodaidd wedi cymeryd yr anturiaeth o dan ei haden, ac mae pedair *van* o leiaf wedi eu trefnu i gymeryd y maes y tymhor nesaf. Bydd yn fantais fawr iddynt yn eu hymgyrch, fod braidd holl newyddiaduron y wlad yn ystod y dyddiau diweddaf yma wedi bod yn *advertisement* am ddim i bob peth sydd yn rhyddfrydig mewn crefydd. I Mr. Campbell, y City Temple, yr ydym i ddiolch am hyny.

Gwnaethom sylw yn yr YMOFYNYDD ragor nag unwaith fod llawer iawn o amheuaeth gyda golwg ar yr hen safonau wedi gwneuthur ei ffordd fel elfen guddiedig (*latent*) i fwy o feddyliau yn Nghymru na ddychymygwn ni yn aml. Ychydig sydd wedi d'od i'r golwg, mae'n wir, gan mor ddwfn mae ceidwadaeth grefyddol wedi estyn ei gwreiddiau, ac mor lluosog ydyw'r rhesymau dros osod yr *extinguisher* ar bob fflam fechan o ryddymofyniad sydd yn ymladd am ei bywyd yn mhrofiad miloedd y dyddiau hyn. Rhydd Gwili i ni yn y "Cymru" am Rhagfyr, 1906, gipolwg ar fywyd cuddiedig un o gymeriadau rhagorol Cymru a gollasom gyda diwedd 1905. Daeth Watcyn Wyn yn adnabyddus trwy Gymru i gyd fel bardd, pregethwr ac ysgolfeistr,

a'i adnabod oedd bod yn edmygwr ac yn gyfaill iddo unwaith ac am byth. Cyfarfyddom âg ef un tro yn Llandrindod yn nghanol gwendid ei afiechyd diweddaf, a pheth hawdd oedd gwel'd y swyn a wnelai ei gymdeithas mor hoff a deniadol. Cafodd ei addysg yn Ngholeg Caerfyrddin, a threuliodd ei oes fel Prifathraw Ysgol y Gwynfryn, lle y cododd ac y diwylliodd lu o bregethwyr a adgynyrchant ei yspryd mwyn a rhyddfrydig mewn llawer congl yn y Dywysogaeth.

———

Ond i ddychwelyd at y pwnc. Dywed Gwili,—"Os dim, rhy fach o barch oedd ganddo i uniongrededd, a dywedai gryn dipyn wrthym am ddaliadau ei hen feistr, Dr. Vance Smith. . . . Ar bynciau crefyddol pell oedd o fod yn uniongred, ys dywedir. Yr oedd yn bur ofalus rhag i hyny dd'od i'r golwg yn ei bregethau, ond mewn ymddyddan rhwng dau dywedai bethau cryfion iawn aml i dro. Ymadrodd mawr ganddo oedd 'synwyr cyffredin,' a daliai nad oedd obaith i Gristionogaeth gael ei derbyn gan y llu dysgedig heb esponio'n gliriach, os nad esponio ymaith, y goruwchnaturiol yn yr ysgrythyrau. Ar yr un pryd, credai fod rhy fach o bregethu o'r Efengylau yn Nghymru. Dywedai gyda thipyn o wres am un blaid grefyddol,—'Pregethu Paul mae nhw, nid Crist.' Ofnai nad oedd cymaint o bregethu dyledswyddau ag a allasai, a'i air diweddaf ar hyny o hyd oedd, 'Hyn sydd am nad oes genym fara.' Dywedai ei farn ar faterion crefyddol gyda chryn dipyn o bendantrwydd, ac anodd oedd ei symud o'i safle. Clywsom adrodd ei syniadau drosodd a thrachefn. Gwyddem ei farn cyn ei chlywed, oblegyd nid oedd yn newid nemor. Diweddai gyda gwên a chyda'r frawddeg ddigyfnewid, —'Gwili, credwch ddyn call.'" Cafodd Gwili y cyfleusderau goreu i'w adnabod, gan iddo fod yn ddysgybl iddo ac yn athraw wedi hyny yn ei ysgol am flynyddau.

———

Awgryma sylwadau Gwili ryw ddau neu dri o bethau. Gellir bod yn sicr mai nid Watcyn Wyn oedd yr unig bregethwr yn Nghymru mewn enwad uniongred a ymwadodd â chredo ei ieuenctid, ac ar yr un pryd yr oedd yn "bur ofalus rhag i hyny ddyfod i'r golwg yn ei bregethau." Perygl Cymru a Phwlpud Cymru yn y dyddiau hyn yw gadael i'w rhyddfrydiaeth grefyddol *evaporato* rhwng dau pan mae'r *lamp* ar ddiffodd am ddeuddeg o'r gloch, ac mae'n bryd myn'd i'r gwely. Os oedd Watcyn Wyn yn ofalus rhag i amheuaeth o'r hen safonau lithro i mewn i'w bregethau, mae'n ddigon amlwg iddo dalu sylw arbenig iddi yn ei ddirgel fyfyrdodau. Yr oedd wedi bod ar ei oreu yn ffurfio credo ei fyfyrgell, ac ni fyddai'n bosibl i Harnack neu Pfleiderer wneud y prif *boints* yn gliriach nag a wneir gan Watcyn, oblegyd nis gall un egwyddor fod yn fwy cymeradwy na "synwyr cyffredin" fel sylfaen yr holl adeilad. Yr ydym yn cytuno hefyd

pan yr awgryma fod y goruwchnaturiol yn yr efengylau yn lle datguddio y gwir Iesu yn ei guddio oddiwrthym ; ac os mai Cristionogaeth Crist ydyw'r efengyl y ceisiwn ni am dani, nid wrth draed Paul mae i ni eistedd i'w dysgu ond wrth draed yr Athraw Mawr ei hun ; ac ni a gawn mai yspryd a bywyd ydyw, yn ein gweddnewid "i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant megys gan Yspryd yr Arglwydd." Prysured yr amser pan y derfydd yr efengyl hon—efengyl y gwynfydau a'r damegion, efengyl calon yr Iesu, fod yn ymddyddan rhwng dau yn nystawrwydd y fyfyrgell, ac y daw yn ben moliant trwy'r wlad.

———

Os tawel yw Cymru, ac os mai rhwng dau a dau yn unig mewn conglau neillduedig y siaredir am freuddwydion dyfodol dysglaer i grefydd rhyddid, mae Lloegr ar hyn o bryd yn myned trwy un o'r cyffroadou gwylltaf yn ei hanes mewn ystyr grefyddol. Seinir y clychau sydd yn *boomo* y dduwinyddiaeth newydd gan bob newyddiadur ; mae ffynhonau y dyfnder mawr wedi eu hagor gan rymused y storom ; ac os bernir oddiwrth rai llythyrau nad ydynt ond gwellt i ddangos y *current*, ni fu ymrysonfa erioed yn fwy chwerw na helgwn heresi yn fwy sychedig am waed. Yr Eglwys Sefydledig a rhai o eglwysi yr Alban sydd wedi cael eu haflonyddu fwyaf gan heresi yn ystod y ganrif ddiweddaf ; ond nid peth dieithr i Anibyniaeth, i'r hon y perthyn gweinidog y City Temple, ydyw *heresy hunt*. Gyrwyd Dr. Davidson, un o brophwydi yr addysg newydd am y Beibl, a'r unig ysgolor Beiblaidd yn yr enwad ar y pryd, allan o Goleg Anibynol Lancashire yn 1875. Wedi hyny daeth dadl y *Rivulet*—llyfr emynau o radd uchel gan y Parch. T. T. Lynch. Aroglwyd heresi yn yr emynau, ac er y cydnabyddid fod Mr. Lynch yn un o'r gweinidogion galluocaf a mwyaf crefyddol ei yspryd yn yr enwad, dyoddefodd erledigaeth chwerw ; a gwelsom tua'r flwyddyn 1866 ddiwedd yr helynt mewn *iron chapel* yn Hampstead Road, lle yr oedd pregethwr teneu, gwelw, a'r bywyd wedi ei dreulio allan o hono gan y driniaeth gafodd, yn porthi ychydig ganlynwyr o Sul i Sul âg ymborth yspryd ol na chynygid dim o'i well o ran *quality* yn mhwlpudau Llundain ar yr adeg hono.

———

Nid yw yn rhyfedd fod y storom bresenol yn eithriadol o gynhyrfus. Mae gogwydd pethau yn ddifrifol oddiar safle ceidwaid yr athrawiaeth. Ymddengys yr argyfwng hefyd yn gyfoethog yn y posiblrwydd addawir ganddo yn y dyfodol. Mae'r *storm centre* i ddechreu yn bwysig. Byddai yn anhawdd dychmygu achos tebyg iddo. Ni allasai gwedd pethau fod yn fwy cyffrous pe byddai Mr. Spurgeon, yn uwchder eithaf ei boblogrwydd, yn troi ei gefn ar Galfiniaeth ac yn pregethu athrawiaethau y *down grade* yn rhigil o bwlpud y

Tabernacl. Pwlpud y City Temple yw y talaf a'r mwyaf cyhoeddus yn y byd Cristionogol heddyw, ac mae ffrydiau ei ddylanwad yn rhedeg i bob gwlad wareiddiedig. Mae'n bwlpud hanesyddol oddiar amser Dr. Parker, ond mae ei glod yn fwy, ei atdyniad yn helaethach, a'i gymeriad yn ddisgleiriach nag y bu erioed yn amser Parker. Saif Mr. Campbell ar ei ben ei hun yn ddiamheu fel tywysog y pregethwyr. Nid oes dim amheuaeth dybiwn ar y mater hwn. Awgrymir gan rai ysgrifenwyr yn y papyrau nas gall fod yn dduwinydd mawr. Ni cheisia neb mor bell ag y gwyddom osod y damper ar ei deilyngdod anghydmarol fel pregethwr.

———

Ond fel y dywedwyd, awgrymir, a hyny heb fod trwy'r niwl chwaith, nas gall fod yn dduwinydd. Cydnabyddir ei fod yn athronydd, ond spwyliwyd ei dduwinyddiaeth am na chafodd y fraint o dreulio'r amser arferol yn un o golegau duwinyddol yr enwad. Nis gall dyn fod yn dduwinydd os na fydd wedi myn'd trwy'r *machine*, ac mae'r ffaith na chafodd yr addysg briodol yn adlewyrchu ar gymeriad y dduwinyddiaeth a bregetha heddyw. Ond, atolwg, a ydyw'r egwyddor hon yn gweithio yn mhob cyfeiriad? A ydyw Dr. Horton wedi cael ei addysg mewn coleg duwinyddol? A gafodd Cardinal Newman, Deon Stanley, Proff. Jowett, Denison Maurice a llu eraill yn mhob cyfundeb, fanteision coleg duwinyddol i'w helpu yn mlaen? Beth am Matthew Arnold, a'r Proffeswr Huxley, nad oeddynt yn dduwinyddion proffesedig o gwbl, ond yn greaduriaid peryglus ofnadwy i ddelio a hwy mewn dadl ar bynciau'r ffydd. A pheth arall, a ydyw yn canlyn fod yn rhaid i addysg gyflawn mewn duwinyddiaeth gadw dyn yn iach yn y ffydd? Wel, mae y rhan fwyaf o dduwinyddion mwyaf dysgedig ac addfed yr Almaen yn agosach o lawer at syniadau Mr. Campbell nag at ei wrthwynebwyr. Mae eu diwylliant duwinyddol wedi bod yn ddigon helaeth, ond nid yw o gwbl wedi sicrhau eu iachusrwydd yn y ffydd. Nid anwybodaeth, fe allwch benderfynu, sydd yn gwneud dynion yn anffyddlon i'r hen safonau.

———

Beth, tybed, sydd wedi achosi y cynhwrf eithriadol hwn yn y byd crefyddol? Er budd y rhai nad ydynt wedi dilyn cwrs yr ystorom hon, wele fraslun o'r amgylchiadau. Er ys rhyw bedair blynedd y mae gweinidog y City Temple wedi bod yn pregethu syniadau rhyddfrydig mewn crefydd. Ac, yn wir, er pan ymadawodd â Brighton, pan y daeth i'r ffrynt fel un o bregethwyr mwyaf atdyniadol y deyrnas, mae ceidwaid y ffydd wedi bod yn ddrwgdybus o hono. Ond gobeithid yn erbyn pob gobaith mai yn ol i freichiau iawnffyddiaeth y deuai. Ond bellach mae'r cwmwl wedi tori, y gwlaw yn disgyn yn genllif a'r storm yn rhuo yn ei man gwaethaf. Mae colofnau papyrau newyddion mwyaf dinod y wlad yn dystiolaeth i hyn.

Ychydig amser yn ol traddododd Mr. Campbell anerchiad i weinidogion Llundain. Ei destyn oedd, "*The changing sanctions of popular theology*," ac er y pryd hwnw gellir dweyd fod yr anesmwythder wedi dechreu. Ar y deuddegfed o Ionawr yn y *Daily Mail* ymddangosodd ymddyddan (*interview*) rhyngddo ef ag un o ohebwyr y papyr hwnw. Er yr adeg hon ymddengys fod y pontydd wedi eu dinystrio a'r cychod wedi eu llosgi, ac nad oes modd dychwelyd i hen wlad ddyogel iawnffyddiaeth. Gelwir y syniadau bregethir ganddo ef a'i ganlynwyr yn "Dduwinyddiaeth Newydd." Yn debygol, y maent yn newydd iddo ef, ond beiddiwn ddweyd mai nid newydd yr un o'r syniadau osodir allan ganddo. Y mae darllenwyr yr YMOFYNYDD, a phob Undodwr yn hen gynefin â hwynt i gyd. Gwneir ymdrech druenus gan un o leiaf o ganlynwyr Mr. Campbell i osod allan fod gwahaniaeth mawr rhwng Undodiaeth a'r Dduwinyddiaeth Newydd, ond y mae llenyddiaeth gyfoethog Undodaidd y wlad hon a'r Amerig yn ormod tyst i wrthbrofi yr haeriad hwn.

Wele yn fyr gynwys ei gredo fel yr ymddangosodd yn y *Daily Mail*:—

"1. Mae dweyd fod Iesu wedi ei eni heb dad daearol yn gyfeiliornus.

2. Beth bynag ydyw Iesu yn awr, yn sicr nid oedd yn ogyfuwch â Duw pan ar y ddaear.

3. Credwn nad ydyw stori'r Cwymp yn llythyrenol wir; llenyddiaeth ydyw, ac nid *dogma*.

4. Gwrthodwn yn hollol esponiad cyffredin yr Iawn—fod arall yn cael ei guro am ein beiau ni.

5. Fe gaiff pob enaid ei berffeithio yn y pen draw."

Nid oes neb sydd yn gyfarwydd â'n eglwysi Undodaidd heb wybod fod y syniadau hyn wedi eu pregethu yn ddifloesgni o'u pwlpudau yn ystod y ganrif aeth heibio. Y mae Dr. Warschauer—cyn-weinidog Undodaidd, ond yn awr canlynwr pybyr Mr. Campbell—yn dweyd fod gwahaniaeth rhwng y Dduwinyddiaeth Newydd ac Undodiaeth ar bwnc yr Ymgnawdoliad. Eto, pan ä yn mlaen i esponio'r Ymgnawdoliad—Duw a ymddangosodd yn y cnawd, nid unwaith yn hanes y byd, ond yn mhawb sydd a delw yr Anfeidrol arnynt—y mae yn esponio yn gywir yr hyn y mae pob Undodwr yn gynefin âg ef. Gwrthwynebiad arall godant yn erbyn Undodiaeth yw ein bod ni yn gosod gagendor mawr rhwng Duw a dyn, ac yn eu gosod yn mhell oddiwrth eu gilydd. Mae y fath awdurdod uchel a Dr. Fairbairn yn dweyd fod hyn yn gyhuddiad anheg yn erbyn yr Undodiaid, oherwydd ceir yr athrawiaeth hon o Dduw yn y ddynoliaeth—(*The Immanence of*

God) — yn ngweithiau Dr. Priestley a Dr. Channing, Theodore Parker a Dr. Martineau. Ac onid ydyw emynau ein Iolo wedi eu trwytho o'r un syniad. Fel hyn y canai Iolo yn un o'i emynau cyfarwydd :—

Ymdemlu mae Dy Fawredd
Drwy'r holl fodoldeb maith.

* * * * * *

Er hyny'n hawdd Dy ganfod,
Wyt fyth yn agos iawn,
Yn nheimlad pob cydwybod,
Yn ngair Dy ddwyfol ddawn.

Yn ngwyneb y cynhyrfiadau yma i gyd, beth am y dyfodol? Y mae yn anhawdd proffwydo pa effaith gaiff y cyffro hwn ar grefydd ryddfrydig yn y wlad. Gan nad beth erys yn nghroth y dyfodol, dylai y symudiad hwn ddwyn ganddo galondid i ni gyd. Y mae yn gefnogaeth i'r rhai sydd wedi dioddef pwys, gwawd ac erlidiau'r blynyddoedd i fyned yn mlaen gyda rhagor o wroldeb a llawenydd, gan gredu yn fwy sicr nag erioed mai syniadau rhyddfrydig am Dduw a dyn, am nefoedd ac uffern fydd syniadau y dyfodol.

Y mae yn ffaith arwyddocaol mai y Parch. R. J. Campbell, M.A., gweinidog y City Temple, sydd i draddodi yr *Essex Hall Lecture* yn nghyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig fa Thramor gynhelir yn Llundain y Sulgwyn nesaf. Ei destyn fydd "*The Principles and Contents of the New Theology.*"

Da genyf ddyfynu rhan o lythyr ymddangosodd yn y *Daily Chronicle*. Gobeithiwn ei fod yn broffwydoliaeth o well amser ac yn golygu fod Undodiaid pa beth bynag ddichon eu diffygion fod, yn deilwng o gydnabyddiaeth am eu hir ffyddlondeb i wirioneddau anmhoblogaidd. Meddai'r ysgrifenydd :—"Caniatewch un linell i wrthdystio yn erbyn yr agwedd fabwysiedir gan amddiffynwyr y dduwinyddiaeth newydd heddyw, tuag at fyddin fechan ddewr yr Undodiaid ydynt am gyhyd o amser, wedi dal i fyny eu lamp yn nghanol y tywyllwch amgylchynol. 'Dwyf fi ddim Undodwr mwy na rhywbeth arall, ond teimlaf yn gryf ar ran y dynion gonest, ysgolheigaidd ydynt yn awr fel y maent wedi bod trwy'r blynyddau yn pregethu gwirionedd uwch a phurach na'r dduwinyddiaeth newydd," &c.

O FOR I DEIFI.

'I Walia'r af, a chanaf mewn dychymyg
I gartre'r grug, a'r nant furmurawl-unig,—
Cul gwm, gan fwswg melfed yn gudd-iedig.'

'Rwy'n hoffi'r hen. Rhowch i mi fagwyr ac ywen, ac y mae fy nghalon wrth eu bodd, yn yfed ei llond o felusder anobaith, o win diflan y darfodedig. Mae pesychiad yr hen i mi yn anwylach na chwerthiniad babanod; a chrindod hydref yn fwy na blaendarddiad y gwanwyn. Blodeuyn yn tyfu ar feddrod—dyna'r peth mwyaf cysegredig mewn bywyd. Y gorphenol ddeil gysegr cenedl; edrych yn ol, a deigryn ar y rudd,—gwae y neb nas medr ar droion daflu trem dros ei ysgwydd, dros y dyddiau diflanedig, y blwyddau a fuont, y canrifoedd coll.

Y mae dau lyfr o fy mlaen, tra yr wyf yn ysgrifenu, un yn Saesneg—"*Get on or get out*"—llyfr yn honi dysgu'r ffordd i wneud arian, a'r modd i ddod yn mlaen yn y byd, gan wr na cheisia gelu ei feddwl da am ei hunan, canys d'wed yn ei ragymadrodd,—"Wrth ddarllen y prawfleni, da oedd genyf wel'd fod yn y llyfr ddau neu dri o bethau gwir glyfer"! Dyna ddigon i chwi am lên y dyddiau diweddaf hyn. Beth bynag ellir ddweyd am y Cymro hen-ffasiwn—'d all neb wadu nad yw yn credu mewn gwyleidd-dra, beth bynag.

Y llyfr arall yw "Crwth Dyffryn Clettwr," llawn symlrwydd, gostyngeiddrwydd, naturioldeb; cyfoethog mewn awgrymiadau am y cymeriadau anwylion, am nad ydynt mwyach, ac am nad oes eu bath mwyach yn bod.

'Pa dda i ddyn o fewn ei gyfyng gell
Hiraethu beunydd am Baradwys bell;
Yr Aur a'r Arian! ymaith oll a hwy!
Na hidiwn chwaith am dwrf rhyw Dabwrdd pell.'

Rhywbeth fel yna y teimlai yr hen Omar, ddoeth ei ben, tyner ei galon, a deigryn a gwên beunydd yn ymlid eu gilydd ar ei wefus dawel, ddwyreiniol.

Gormod o yspryd rhuthro yn mlaen, yn ddihidio, yn ddifeddwl, ac hyd yn nod yn ddibwrpas—dyna anafa ein dydd. Cas genyf y trên a'r modur, a'r peiriant hedfan—rhowch i mi hamdden i eistedd i lawr yn dawel ar dwmpath gwyrdd, ie, dan yr ywen, i edrych ar y gwellt yn tyfu ar fedd fy nhadau. Trof at Amnon, a darllenaf:—

'Pan yma'n myfyrio ar waelder y byd;
Ei orwag anrhydedd, a'i fawredd yn nghyd;
Canfyddwn rhyw blentyn, yn araf ei gam,
Yn myn'd heibio'r ywen at feddrod ei Fam.'

Pe yn yr India, esteddwn dan y palmwydd, ag awelon sidan y dwyrain yn chwareu ar fy ngrudd. Yn Nghymru, eisteddaf dan yr ywen, a gwynt llaith y gorllewin yn oeri fy nhalcen, ac ysbryd rhyfedd ei bryniau yn berwi dan fy mron.

'Cul gwm, gan fwswg melfed yn guddiedig.' Pa drydan o adgof gyfyd y llinell drwsgl hon? Wele'r cwm. Eithin ar y dde, a llwybr drwy'r canol, ac olion hen fagwyr, a hen lyn, a defaid ac un bugail ar y banc uwch ben. Ar y chwith, grug a mwswg, a mwswg a grug—a chreithiau creigiog hen chwarel yn ystlys y bryn. O lygad gwyrdd y ffynon fry yn mlaen y cwm, lle mae eto hen chwarel, tardd afonig, — 'Nant-y-mynydd, loew, loew.' Ymdroella rhwng brwyn, a phorfa hir, a mint gwyllt, i lawr drwy'r cwm cul unig, a'i chân yn hyglyw hyd yn nod ar ganol dydd. Arogl y mint ddug i mi heddyw gofion y cwm yn fwy byw na dim arall,

yn fwy na fedrai pwyntil yr arlunydd, na darlun geiriog y bardd. Un ddalen werdd-dywell o'r planigyn, a darllenaf arni fil o ramantau, arogl-af arni hafau diflanedig, a gwel fy llygad arni ddarluniau o baradwys golledig—Gwynfa Mebyd. Gwelaf y garnedd lle y chwareuem gynt yn nghwmni plant C——. Erbyn heddyw mae'r cyfan i'm meddwl fel gwlad hud. Y Mabinogion yw'r unig foddion i gyfleu i'm cof y dyddiau darfodedig hyny. Cysgodion yn ystafelloedd y cof—ysprydion yn nghrog-lofftydd y meddwl—dyma i gyd yw'r plant i mi erbyn heddyw. Y mae i bob un ei Fabinogion, pe medrai eu hysgrifenu, gwlad hud, a rhamant yw'r gorphenol i ddyn ac i genedl. 'Dall dyddordeb y proffwyd yn y dyfodol fyth fod yn gymaint ag eiddo ysgrifenydd Mabinogion cenedl. Y mae'r gwr fedr gloddio i feddau'r gorphenol yn apelio yn fwy at ddynoliaeth na'r un sydd yn tori gwndwn yr anhysbys yn nhiriogaeth gwyddor.

Ychydig fisoedd yn ol bum heibio'r bwthyn tô gwellt unig, a dwy ffenestr a drws iddo, llwyni celyn o'i gylch, y nant yn croesi'r heol gerllaw iddo, a bryn garw diffaeth o'r tu arall, a'r 'cwm a'r nant furmurawl unig' yn agor o'r tu ol iddo—a swn gwenyn yn ei lanw yn yr haf, mwyeilch yn canu ynddo yn y gwanwyn, a gwynt rhuadwy'r gogledd yn trywanu i lawr drwy'r agen yn y mynydd yn misoedd y gauaf, gan blygu penau'r eithin, drysu'r drain, chwythu ymaith ddail gwydn y celyn, a dynoethi gwellt y bwthyn. Ac yma yr oedd yn byw Sian a Sion a'u plant—yn agos i ddwsin o honynt. Edrychaf arnynt drwy wydrau adgof, gwr cadarn, cyhyrog, cryf ei lais, nerthol ei barabl a'i reswm, darllenwr rheolaidd o'r papyrau wythnosol, gwleidyddwr llithrig ei dafod, ac o yspryd rhydd-frydig i'r eithaf. Aml y clywais fy nhad ac yntau yn siarad *politics* ar foreu Sul pan oedd y *temperature* yn uchel iawn yn y wlad. Gwrandawn yn astud arnynt yn y cornel—a gwyddwn mai Sion, drwy nerth ei araeth, a tharan-fellt ei eiriau, oedd y concwerwr ar ddiwedd y ddadl. Nid oes genyf amheuaeth hyd heddyw nad rhyw aelod seneddol heb ei ethol, neu rhyw bregethwr anadblygedig oedd Sion—nis gallwn ar un cyfrif ei alw'n bregethwr mud, canys hoff ganddo, oddiar ei glawdd, neu o ben ei gart, neu ar drothwy ei ddrws, dywallt ei hyawdledd ar y neb a ddel heibio. Y mae Sion eto'n fyw, a byw fyddo am amser hir i ddod. Y mae henaint wedi ei orddiwes—a methiant a phenllwydni heb fod yn mhell oddiwrtho, ond deil ei lais yn gryf, a cheidw ei ddyddordeb mewn bywyd. Diameu fod natur wedi ei gynysgaeddu a chorff patriarch a meddwl proffwyd. Ond pwy erioed sydd wedi cwbl goncro amgylchiadau? Waeth beth fo'r hedyn, os na heuir ef mewn dyfnder daear, os na ddisgyn cawodydd maethlon ar ei ben. Ar y mynydd yr eginodd Sion, ni chafodd fantais erioed i daflu ei wreiddiau i'r byd, ac ni wlawiodd arno gawodydd maethlon dysg a diwylliant yn moreu ei ddydd. Na, tylodi, a chaledi, llafur caled, cymdeithas ddifaeth, ddi-fudd, ystormydd bywyd — dyna amgylchynedd Sion. Derwen wedi ei phlanu ar y mynydd,—pa ryfedd fod ambell i ganghen o honi wedi ei rhwygo gan wynt y gogledd, pa ryfedd fod ei boncyff yn arw, ei changau yn geimion gan faint grym yr ystormydd. Ti a feithrinwyd yn Ysgol y Bwrdd, a fagwyd ar fron garuaidd eglwys, a gefaist ffordd esmwyth drwy'r byd—taw a'th feirniadaeth. Cyfiawnder a'n prawf yn ol yr hyn a orchfygasom. Nid talent yw unig hanfod llwyddiant, nid calon naturiol dda yw unig hanfod bywyd pur—waeth pen na chalon oni feithrinir hwy gan awyrgylch briodol.

Hanes bywyd Sion! Ond odid na ysgrifenir fyth; pe ysgrifenid y gyfrol diau y buasai yn un o'r llyfrau mwyaf dyddorol mewn unrhyw iaith. Ond i ben y dirwyna amser; ac y mae Sion yn gosod i lawr

benodau olaf ei hanes yn y gyfrol nad ysgrifenir fyth.

Ond nid Sion, sydd eto'n fyw, ond Sian, sydd wedi marw, sydd wedi fy symbylu i ysgrifenu y sylwadau hyn. Dynes dawel oedd Sian—benyw gall, garedig—byr ei rheswm a phwt ei 'stori. 'D oedd ynddi na gweniaeth na rhagrith; ond yr oedd yn ymarferol, ac yn edrych ar ol y teulu pan fyddai Sion yn hel ar ol ei orchwylion. Ar ben ffair yr oedd Sion yn ei elfen; ar yr aelwyd yr oedd lle priodol Sian. Ni chlywais erioed fawr o gleber y gymydogaeth ganddi; yr oedd ganddi ormod o waith gartref. Foreu ar ol boreu am flynyddoedd gelwais yn y ty, i gael cwmni'r plant i'r ysgol; a gwelaf hi eto yn golchi eu gwynebau, yn gosod y llestri tê o'u blaen, ac yn eu hanog i frysio, rhag ofn iddi fyn'd yn ddiweddar. Nid oes llawer i'w ysgrifenu am dani; gan fod ei bywyd mor ddistaw a didramgwydd; yn myd calon Sian y bu gwneuthur hanes, ac ni agorodd ddrws ei chalon i nemawr neb erioed. Bu fyw yn ddidwrf, heb gael ei gweled gan neb; bu farw, yn unig, heb i neb ei gweled yn tynu'r anadliad olaf. Hyfryd yw marw yn ngolwg ein cyd-ddynion; y mae eu hedmygedd yn ychwanegu at bleser bywyd, a'u cydymdeimlad yn eli ar ein clwyfau; y mae hyd yn nod gwely angau, pan y gwyr pawb ein gorwedd arno, yn myn'd yn fath o ferthyrdod melus. Torai eos ddigân ei chalon; a'r fynwes ddi-ddagrau ddrylliai heb lif-ddorau cyhoedd y llygad. Melus hysbysebu gwae. Hyfrytach cyhoeddi gwynfyd. Ond cadwodd Sian ei gwae a'i gwynfyd iddi ei hun; bu fyw a bu farw heb aflonyddu ar neb.

Weithian, 'does genyf ond hedfan yn fy meddwl, unwaith yn rhagor, fel yr wyf wedi gwneud lawer gwaith o'r blaen, i fynwent wledig arw, lle tyf ywen dywell frigog, lle gorwedd aml i hen wr a bachgen ieuanc, aml i hen wraig a meinir lon, a adnabyddwn gynt. Gwelaf yr eira gwyn yn disgyn fel plu engyl ar gangau duon yr yw; clywaf gnul egwan y gloch wledig ddi-ogoniant; edrychaf ar y dorf arw Gymreig; gwrandawaf ar yr hen, hen emyn angladdol torcalonus—

'Torf o'm brodyr sydd yn gorwedd
Yn y bedd, anghofus dir.'

Mae gwynt y dwyrain yn peri cryndod yn nghrinddail y coed; braidd y cân brongoch heddyw gan oered yr awel; gwelaf ddrws yr Eglwys fechan dawel yn agored, ac y mae llais yr offeiriad yn disgyn ar fy nghlust. Ie, dyma angladd Sian. Wylaf; am beth? Ydyw angau mor ddychrynllyd? Na, hedd perffaith hedd, dyna arwyddair angau pan ddaeth i gyfarfod a hi. Disgynodd fel deilen oddiar y pren yn nhawelwch distaw rhewog Rhagfyr. Wylwn, am mai wylo sydd naturiol am y rhai anwyl nas gwelwn ar y ddaear mwy. Tywalltaf ddeigryn am fod cadwen arall a'm cysyllta a dyddiau cyfareddol mebyd wedi ei thori am byth. Nid am na chyrhaeddodd Sian oedran addfed. Yr oedd rhwng ei thriugain a deg a phedwar ugaiu. Nid yw ffeithiau ei bywyd o ddyddordeb; nid yw dull ei marw yn galw am sylw; ac eto gwn na theimlais erioed fwy pruddder (oddigerth unwaith) na phan y clywais am ymadawiad Sian. Dichon mai at y galon yr apeliai yr hen wraig hon; fel yn wir y gwna pob hen wraig arall. Rhyddiaeth i Sion; ond penill i Sian. Wele, ynte ymgais, goreu gall fy ysgrif-bin musgrell i:—

Ger y nant furmurog,
Is y bryn eithinog
Ddyddiau fu
Bu yn byw yn ffyddlon
O dan brudd gysgodion
Yr Allt-ddu.

Gwelodd hi dylodi,
Profodd beth caledi,
Aml waith;
Ond yn nghell ei chalon
Cuddiodd ei gofalon
Ar ei thaith.

Aml gardod fechan,
Gefais ganddi druan
Heb un gair—
Aed y gardod hono
'N gardod deilwng heno
Fry yn ngwlad ddi-wylo
'R Delyn Aur.

Gwn dy fod mewn nefoedd
Fry mewn rhyw ardaloedd
Cudd i mi ;
Os nad yw Baradwys,
Yna bythol orphwys
Fo i ti.

Na, gwn nad allaf, mewn rhyddiaeth na phenill, gyfleu Sian. Felly rhof yr ymdrech i fyny. Y mae hi wedi myn'd ; ond y mae'r bwthyn, a'r celyn, a'r cwm yn aros. Ac y mae'r cwm, er nad oes ynddo enaid byw i'w wel'd, yn dryfrith o gymdeithion i mi. Gwelaf blant yn chwareu ger y dwfr ; yn garpiog eu gwisg, yn drwsgl eu hiaith, ond hapus, bythol hapus ! Ai felly'r edrychem ninau gynt ? Lle mae'r plant cyffredin yna heddyw yn chwareu yn y llaid a'r graian, yn nofio cychod papyr, neu ddal sildod ac ofer ymlid brithyllod, ai dyna y Wynfa Goll yr edrychaf yn ol mor serchus arni o binacl y blynyddau ? Gwn y mai. Yr hyn oll a brawf mai y galon lawen a phur yw pobpeth mewn bywyd. Gwn am gyfaredd y ddawns a'r gwin ; ond nid erys y gyfaredd ; nid yw y llawenydd yn arosol, a'r gwir ddedwyddwch a gaf nid yw mewn bwyd a diod ac addurniadau na gwisgoedd gwychion, ond yn y galon lawen a phur a gyfarfyddaf, O mor anaml, wrth dramwy drwy y byd. Heno nesaf gwn y gwelaf ddynes serchog mewn gwisg o sidan i fy nghroesaw i'w thŷ, a gwên ar ei gwyneb, a thân ar ei haelwyd, a'i bwrdd yn huliedig a danteithion ; ond gwn hefyd na rydd y cyfan gymaint argraff ar fy mywyd ag a gefais gynt yn mwthyn bychan Sian : cartref diwydrwydd a gonestrwydd ; lle yr oedd digon o ofal a gwaith i gadw ymaith ysbryd blinder bywyd. Gwn hefyd nas medrwn fyth fwynhau preswylio bwthyn felly'n hir yn awr ; y cofion a'r cysylltiadau dyna'r mwynhad ; nis medrwn fyth ddal y ffeithiau moelion yn awr. Eto d'wedaf, gwae yr hwn sydd yn byw yn y presenol diflanedig, a gwae'r neb a breswylia yn y man gwyn fan draw. Edrychwn yn ol ar rodfa ein bywyd, os am ei wel'd mewn goleu iawn. Y mae mebyd dyn mor bwysig a mebyd cenedl ; felly gwae hefyd yr hwn sydd yn byw yn hollol mewn ymdriniaeth a gwleidyddiaeth yr awr, yn mân drafodaeth pethau darfodedig y dydd. Gwell wylo am gwymp Llewelyn am enyd awr nag aros beunydd i sylwi ar bolitics lleol ein trefydd, neu dreulio ein hamser mewn gwag bleserau ffuantus. Gwn mai hoff gan y gwir Gymro edrych yn ol at febyd ei genedl ; a gwrando ar Fabinogion ieuenctyd ei wlad. Dos i weled y Cymro yn curo y Sais ar faes y bêl droed, ond paid ag anghofio Cyflafan Morfa Rhuddlan. Dos i'r chwareudy i wrando digrif ganeuon y Sais ambell i waith ond paid anghofio beirdd a llenorion ein cenedl anwyl. Dichon nad oedd Owen Glyndwr yn fwy gwron na Lloyd George, ond erys y cyntaf ar binacl hanes, ac wrth edrych arno ef gallwn weled yr oesoedd yn ymestyn oddiwrtho, yn ei holl arddunedd, yn mlaen ac yn ol. Nid yw gwleidyddwr y dydd ond gwr yn nghanol tyrfa o bobl—llawer o honynt yn ffyliaid. Oes, mae athroniaeth ddofn yn nghrefydd y dwyreinwyr, a addolant eu hynafiaid, ac a adeiladant allorau ar feddau eu cyndeidiau. Felly y dylem ninau wneud ; 'does fawr barhad i'r gwr na'r genedl anghofio y gorpenol. Y gorphenol yw ysprydoliaeth y dyfodol. Gwelwn fusgrellion cenedl heb orphenol iddi yn yr Amerig— cenedl ieuanc gref, ond cenedl hefyd, os na chymer ofal mewn pryd, a ddryllir ar greigiau o aur. Peidied y byd anghofio Homer ; na ollynged Cymru ei Mabinogion yn anghof ; cadwed Dyffryn Clettwr Amnon ar go' ; cofied Dyffryn Cerdin mai yno y ganed Christmas Evans ; a gobeithio y cofiaf finau, tra fydd-

wyf byw yr hon oedd megys ail fam i mi yn moreu oes ; yr hen wraig a weithiodd mor galed, a fu byw mor onest, a dreuliodd ei bywyd i weithio yn ddistaw a diwyd dros ereill—ie, byw fyth yn fy nghof a fyddo—Sian.

S.

YMSON Y MYFYRIWR.

Yr wyf yn hoff iawn o dalu ymweliad âg Aberystwyth yn awr ac yn y man. Mae ynddo ryw swyn i mi na fedd un lle arall wyf wedi ymweled âg ef. Pe gofynai rhywun y rheswm am hyn, ni fedrwn ei roddi. Mae ynddo lawer o atdyniadau, y rhai, gyda'u gilydd, a'i gwnant yn haner paradwys, i'r hon yr hoffaf gyfeirio fy nghamrau yn achlysurol i gael adgyfnerthiad i'r corph a'r meddwl. Un o'r ymweliadau hyn sydd wedi peri i mi yn awr i gymeryd fy mhin yn fy llaw i osod ar bapyr ychydig feddyliau a ddygwyd i fodolaeth gan ddigwyddiad ar y ffordd.

Un boreu, ychydig amser yn ol, cychwynais o dref am y Mecca uchod. Pan ddaeth y cerbyd i'r orsaf, aethum yn ddiymdroi i chwilio am le cysurus a chwmni dymunol ; ac ni fum yn hir cyn cael fy moddloni. Ar ol eistedd, teflais fy ngolwg dros fy nghyd-deithwyr. Dechreuais yn yr ochr bellaf oddiwrthyf. Ymddangosent yn ddynion a benywod parchus. Ond pwy a pha beth oeddent ni roddai eu hymddangosiadau allanol i mi un arwydd. O un peth yr oeddwn yn dra sicr—nid oedd yno un offeiriad na phregethwr. Nid hoff iawn ydwyf o'r hyn a elwir yn *clerical cut.* Ond perthyn iddo un fantais—galluoga leygwr i wybod pwy sydd bregethwr neu offeiriad, a phwy sydd heb fod. Yn ddiweddaf oll, syrthiodd fy llygad ar ddwy ferch ieuanc a eisteddent gyferbyn â mi. Am ryw reswm neu gilydd, tynasant fy sylw yn fwy arbenig na'r gweddill o'r cwmni. Beth barodd hyn ni fedraf ddyweyd. Yr oedd rhywbeth yn eu golwg a arwyddai i mi eu bod tu allan i'r cwrs cyffredin o fenywod neu o ferched ieuainc. Ni ellir dyweyd dim yn rhagor am ambell un na'i bod yn fenyw neu yn ferch ieuanc ; ac nid yw hyn yn un sarhad i'r cyfryw. Y mae yn hollol yr hyn y mae amgylchiadau yn ei gwneud. Y mae ambell un, ar y tu arall, golwg yr hon a amlyga feddwl mwy diwylliedig na'r cyffredin. Ac i'r dosbarth olaf hwn y perthynai y ddwy y cyfeiriaf atynt yn awr.

Yn llaw y ddwy yr oedd pob o lyfr—dau Feibl fel y cefais allan yn fuan. Dyfnhaodd hyn fy chwilfryd-edd, ac awyddwn wybod ychydig o'u hanes, a chael ymgom â hwynt. Ond sut i ddechreu ? Seisnesau oeddent hwy ; Cymro oeddwn ninau, na fedrai lawer iawn o'r iaith fain. Heblaw hyn, yr oeddem yn ddieithriaid i'n gilydd ; ac y mae hyn i'r Saeson—ac i lawer o Gymry hefyd, o ran hyny — yn wahanfur effeithiol i'w cadw yn mhell oddi wrth eu gilydd, er y dichon iddynt fod, yn gorphorol, yn agos i'w gilydd. Rhoddais bob gobaith i fynu, a threfnais fy hun mor gysurus ag y medrwn i ddarllen fy mhapyr. Cyn ein bod wedi teithio yn mhell, fodd bynag, torodd gwawr —gwawr a ymddatblygodd yn fuan i oleu dydd. A Thŵr y Dderi fu'r cyfrwng. Gofynasant i mi beth ydoedd. A dyna lle buais am ychydig amser yn rhoi ei hanes iddynt goreu gallwn. Rhaid cyfaddef nad oeddwn

inau yn gwybod llawer am dano, er fy mod wedi treulio llawer o amser yn ei gwmni cyn hyn, ac yn ei ystyried, pan oeddwn i yn ieuanc ac heb weled llawer, yn un o ryfeddodau'r byd—yr oedd yn un o ryfeddodau'r byd bach bach yr oeddwn i yn arfer byw ynddo.

Erbyn i mi orphen rhoi hanes Twr y Dderi,—yn yr hwn hanes, fel yn yr hen Almanaciau, y gallai fod peth gwir a pheth heb fod felly; oblegid ni ddywedwn ond yr hyn oeddwn wedi glywed—yr oeddem, ein tri, ar delerau cyfeillgar iawn â'n gilydd. Ac heb llawer o drafferth, cefais gryn dipyn o'u hanes, y rhan fwyaf dyddorol o'r hwn oedd—mai merched Byddin yr Iachawdwriaeth oeddent, yn efengylu yn y Brifddinas, a'u bod yn myned i Aberystwyth am eu gwyliau. Rhoddodd hyn eglurhad i mi ar y Beiblau oedd yn eu llaw. Yr oedd gweled dau Feibl yn llaw dwy ferch ieuanc brydferth mewn cerbyd rheilffordd yn beth mor anghyffredin o anarferol. A dweyd y gwir, dyma'r tro cyntaf erioed i mi weled Beibl yn y fath amgylchoedd. Fel rheol, nofelau a llyfrau cyffelyb gerir gan ferched ieuanc pan yn teithio gyda'r trên. Pan y deallais pwy a pha beth oeddent, meddyliais nas gallwn eu difyru yn well na thrwy roddi iddynt dipyn o hanes crefyddol y cymydogaethau yr elem trwyddynt. Gwyddent fod y Cymry yn fobl grefyddol, ond ychydig o hanes Cymru oedd wybyddus iddynt. Yr oedd enw Rowland, Llangeitho, er engraifft, yn hollol anadnabyddus i'r ddwy. Casglwn oddiwrth eu haml ofyniadau am dano ac am ddiwygiadau crefyddol Cymru, fod yr ymddyddan yn eu dyddori yn fawr.

Er eu bod, yn garedig iawn, wedi rhoi i mi eu hanes hwy, nid oeddwn wedi rhoddi iddynt hwy ddim o'm hanes i. Gwnaethant amryw ymgeisiadau yn y cyfeiriad hwn mewn ffordd gynil, ond llwyddais i'w cadw draw am dipyn. O'r diwedd, fodd bynag, daeth yr arbrawf. "Ai Methodist ydych?" "Ai Bedyddiwr?" O braidd na theimlwm ias y dwr wrth glywed y gair, ac atebais, "Nage, nage." Nid oedd arnaf gywilydd i arddel fy Undodiaeth; ond teimlwn dipyn yn chwilfrydig i wybod pa mor bell yr elent cyn rhoi i fyny. Dyna lle buont yn enwi'r gwahanol enwadau, nes oeddent wedi myned dros ran dda o'r 300 (mwy neu lai) a geir yn Mhrydain. Yna, rhoddasant yr ymgais i fyny, a diameu eu bod yn fy ystyried yn ryw fath o *Sphinx* crefyddol. "Wel, beth ydych, ynte?" Arosais am fynud, troais fy llygaid at yr eiddynt hwy er gweled yr effaith, a dywedais—"Undodwr." "O'r anwyl, anwyl, Undodwr!" Credais fod y cyfeillgarwch oedd wedi ei sefydlu rhyngom yn ystod y daith hyd yma wedi ei ddinystrio yn llwyr. Ond chwareu teg iddynt, daethant atynt eu hunain yn fuan, ac ymddangosent hwythau yn awr yn llawn chwilfryddedd i wybod ychydig am Undodiaeth.

"Beth yw Undodiaeth?" oedd y gofyniad cyntaf roddasant i mi. Dywedais inau wrthynt mor fedrus ag y gallem. "Yr ydych yn gwadu Crist?" "Na, nid felly ond credwn ynddo mor drwyadl a neb." "Ond yr ydych yn gwadu ei Dduwdod." "Ydym, am y rheswm na ddysgwyd hyny ganddo ef." "Ond beth ddywedwch am yr adnod hon?" a thaflodd un o honynt y Beibl o'm blaen, gan nodi allan y geiriau—"Mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Dywedais wrthynt mai ar dystiolaeth Iesu am dano ei hun y gosodem ni bwys; ac os oedd Paul yn dysgu syniadau nad oedd un awdurdod drostynt yn addysg Iesu Grist, ein bod yn gwrthod Paul, ac yn dylyn Crist yn hytrach. Yr oedd hyn yn amlwg yn hollol newydd iddynt. Yna rhoddais iddynt fy esboniad i o'r geiriau uchod. Ar ol i mi wneud hyn, buont yn lluchio adnodau ataf am dipyn, a minau yn gwneud fy ngoreu i'w hateb. Nid ymddangosai, fodd bynag, fy mod yn gwneud llawer o argraff arnynt. Amlwg oedd mai dyma'r tro cyntaf i awel o

hereticiaeth i chwythu arnynt. Gobeithiaf na ddarfu iddi leihau dim ar eu mwynhad o'u gwyliau.

Fel yr agoshaem at ben y daith, er mwyn ymadael a'n gilydd mewn teimlad da, dywedais wrthynt, er mai Uudodwr oeddwn, nad oedd edmygydd mwy gwresog na fi o'r gwaith ardderchog a gyflawnid gan Fyddin yr Iachawdwriaeth ; ac er i ni fethu cydweled ar bynciau duwinyddol, eto gallem gydgwrdd ar dir crefydd ymarferol. Wrth ymadael dadganasant ddymuniad am fy nghwmni yn awr ac eilwaith yn ystod eu harosiad. "Pe caem ni fod yn eich cwmni am dipyn," meddai un o honynt, "byddem yn sicr o'ch troi o'ch ffordd gyfeiliornus." Nid oeddwn i, fodd bynag, yn bwriadu aros ond diwrnod. A da hyn, efallai ; oherwydd pe wedi treulio ychydig yn rhagor o amser yn eu cwmni, mae yn bosibl y byddwn, yn mheli cyn hyn, yn gadben neu ryw swyddog arall yn Myddin yr Iachawdwriaeth. Cymer cyfnewidiadau mwy hynod na hyn le. Nis gwn pa argraff wnes i arnynt hwy ; ond nis gallwn lai nag edmygu'r merched ieuainc hyn yn cysegru eu hunain i'r gwaith o achub eneidiau dynion—a'u cyrph hefyd.

Un gofyniad arbenig awgrymid i mi gan yr holl ymdrafodaeth hon oedd—paham fod yn rhaid i'r gair Undodwr fod y fath fwgan i ddynion? Atebed y sawl a allo.

MYFYRIWR.

DEFFROAD MAWR Y GANRIF.

Anerchiad gan y PARCH. CYNOG WILLIAMS (B.) *yn Festri Hen Dy Cwrdd, Aberdar.*

Nos, Lun, Ionawr 7fed, traddododd Mr. Williams anerchiad galluog ar y pwnc dyddorol uchod. Gwnaed hyny ar gais ac o dan nawdd "Cymdeithas yr Ymdrech Gristnogol" cysylltiedig â'r Hen Dŷ Cwrdd. Wedi canu emyn a darllen penod gan Mr. Stanley Evans a gweddi ddwys, ddifrifol a phwrpasol iawn gan Mrs. Ebenezer Davies, Ty'rcapel, galwodd y cadeirydd, Mr. David Davies, ar Mr. Williams i draddodi ei anerchiad. Sylwodd Mr. Williams ar weithrediad deddf "Goroesiad yr Addasaf" yn y byd llysieuol a'r byd anifeilaidd — mae yr addasaf i'w amgylchfyd oedd yn byw, fod y cyfryw fethent ymgyfaddasu yn myned i'r wal ; fod yr un ddeddf yn gweithredu mewn cysylltiad â'r eglwys, ac mai'r eglwys fyddai'n byw yn y dyfodol fyddai'r eglwys gyfaddasai ei hun at angenion dyfnaf yr oes, yn dymhorol yn ogystal ag yn ysprydol ; fod y gwyddonwyr wedi darostwng nerthoedd natur at wasanaeth dyn, a hyny wedi creu chwyldroad rhyfeddol yn mhob cyfeiriad, wedi gweddnewid gwyneb gwareiddiad, ie yr oedd pechodau'r oes, ac angenion a thrueni'r byd heddyw yn gwisgo gwisg newydd. Os yw yr eglwys i fyw rhaid iddi hithau ymgyfaddasu at yr amgylchiadau newyddion hyn. Fel y mae, y mae yn rhy geidwadol a ffurfiol. Am lawer o'i defodau a'i seremoniau nid ydynt ond *fossils* crefyddol—difywyd, dienaid. Rhaid iddi wrth fwy o wroldeb moesol ac ysprydol fel y

gallo daflu y rhai hyn o'r neilldu; ie'r angen mawr heddyw yw bywyd llawnach, ac helaethaeh—"*more life and fuller.*"

"Beth ydyw gwaith y dyfodol?" ebe Mr. W. T. Stead, un tro wrth Mr. W. E. Gladstone."—"Gwaith y Dyfodol," meddai yntau, "yw fod i'r eglwys beidio colli ffydd yn y Dwyfol; peidio myned allan o *douch* â Duw." Ofnai Mr. Williams fod yr eglwys, fwy neu lai wedi colli ei ffydd yn Nuw. Credai rhai pobl fod Duw wedi llefaru wrth Abraham ac Isaac a Jacob ond ni chredant ei fod yn llefaru wrth neb heddyw. Cred arall y gellir dyfod i gyffyrddiad â Duw yn yr addoliad ar y Sul, ond collir golwg arno chwe' diwrnod eraill yr wythnos.

Y mae llwyddiant masnach wedi dwyshau'r gwahaniaethau mewn cymdeithas, tra mae'r naill ddosparth yn byw'n fras ar foethau'r byd, y mae yna arall yn gorfod byw ar grystau. Tuedd hyn oedd gwneuthur yr oes yn faterolaidd a di-Dduw.

Ac eto, cawn fod y duwinyddion a'r gwyddonwyr yn cweryla a'u gilydd, a thra'r oedd y cweryl yn myn'd yn mlaen, yr oedd y bobl yn colli eu golwg ar y Dwyfol. Y mae Duw yn dadlenu ag yn dadguddio rhyw wirionedd newydd i bob oes a'r gwirionedd hwnw wedi cynyrchu diwygiadau mawrion y byd, megis y diwygiad mawr Protestanaidd yn amser Luther, diwygiad Whitfield a Wesley ac eraill y gallem eu henwi. Heddyw y gwirionedd mawr arweiniol yw fod pob cwestiwn yn gwestiwn cymdeithasol, ac yr oedd y galw penaf ar yr eglwys i ymdrechu achub y dyn yn gyfan—*the whole man*—yn gorff ac enaid. Yn y dyddiau fu, credai Mr. Williams fod yr eglwys wedi treulio gormod o'i hamser i geisio iachawdwriath ysprydol dyn a hyny ar draul esgeuluso angen ac eisieu ei gorff.

Gwers fawr y diwygiad diweddar oedd—gweledigaeth glirach ar y Crist. Clywid ychydig yn ol y cri—*Back to Christ:* ac fel ei rieni aethpwyd yn ol i chwilio am dano. Y cri heddyw yw—*On to Christ!* Rhaid cwrdd a chwestiynau a gofyniadau yr oes yn ngoleuni dysgeidiaeth Iesu Grist. Beth oedd elfenau neu egwyddorion dysgeidiaeth gymdeithasol y Crist? Dyma nhw.—Deddf gwasanaeth, deddf cariad, deddf aberth. Yr oedd galw ar ddynion i garu Duw trwy garu eu cymydog, gwasanaethu Duw trwy wasanaethu eu cyd-ddyn, ac aberthu i Dduw y modd y gwnaeth y Samaritan trwy aberthu er lles y brawd sydd yn y llwch ar y llawr.

Pe deuai'r Crist heddyw i arolygu un o'r glofeydd yn y gymydogaeth, ni fyddai angen anfon hyspysiad i'r papyrau lleol fod y lofa *Under New Management* neu wedi newid dwylaw. Na, deuai hyny i'r amlwg yn fuan yn y modd y byddai pethau yn myned yn mlaen.

Cred rhai pobl eu bod yn anmhosibl i gario ein gweithfaoedd a'n goruchwylion yn mlaen yn ol egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd; yr elai pob masnach a phob cymdeithas i ddinystr pe cerid hwy yn y blaen ar hyd y llinellau hyny. Ond meddai Mr. Williams, yn gryf ac yn groyw—"Elent i ddinystr, ynte, a chodwn ninau gymdeithas newydd yn eu lle ar egwyddorion y Bregeth ar y Mynydd." Tipyn o feiddgarwch o'r fath hyn sydd yn eisiau.

Gwneir ymgais heddyw yn y cyfeiriad hwn, gan lawer yn onest, gan eraill yn amheus. Mae lle i ofni nad yw pob un a saif i fyny ar y llwyfan ddim mor onest ag y cred rhai ei fod. Ceir ambell i un gydag amcan personol yn gwaeddi, "I lawr a'r *capitalist*," ac ar yr un pryd yn cario ei fodrwy aur ac yn pocedo ei fil o bunau'r flwyddyn.

Ofnwn fod gormod o bwys yn cael ei osod ar lawnderau Dyn yn hytrach nag ar ei Ddyledswyddau.* Corffor-

---

* "*Rights of Man*" oedd gwaedd y Ffrancwr yn amser Voltaire, a "*Duties of Maa*" oedd yr egwyddor y gosodai Mazzini, yr Italiad, bwys arno.

iad yw'r naill o'r "Hunan" a chorfforiad yw'r llall o "Hunan-aberth," ac fel egwyddorion llywodraethol cymdeithas y maent mor bell oddioddiwrth eu gilydd ag yw'r pegynau. Y mae pob cais sydd wedi ei wneuthur i wella cymdeithas o'r tu allan, o ddyddiau Robert Owen i lawr wedi bod yn fethiant hollol. "All your Fouriers failed because they were not poets enough to perceive that life developes from within." Nid yw gwella amgylchiadau allanol dyn ddim yn ddigon; rhaid yw gwella'r dyn oddifewn, heb hyn nid oes wir iachawdwriaeth. Dichon fod yr eglwys wedi bod ar fai na ddarfu iddi dalu mwy o sylw i angenion corff dyn, yn lle troi'r holl sylw at fater ei enaid. Yn yr *Ideal State*—y cyflwr delfrydol—bydd yr eglwys yn edrych at achub corff ac enaid—achub yr holl ddyn.

O.Y.—Nid yw yr uchod ond braslun byr ac anmherffaith o anerchiad byw a barddonol a gymerodd tuag awr i'w draddodi. Credwn y bydd y darllenydd yn falch gael cipdrem fel hwn o honi.

S.N.S.

Y PARCH. R. J. CAMPBELL A'R DDUWINYDDIAETH NEWYDD.

"A rose by any other name will smell as sweet."—SHAKESPEARE.

JONES—Be feddyliwch chi 'n awr am Mr. Campbell? Mae wedi bod yn cael ei gateceiso yn lled lym, ond ydy e?

EVANS—Wn i ddim am dano. Be sy wedi bod?

JONES—O leiaf, fe ddywed nad ydy e ddim yn Undodwr.

EVANS—Wel, nid yw hyny nac hwnt nac yma. Fe wyr pawb fod mwy nad ydynt yn Undodiaid nag sydd o Undodiaid proffesedig. Nid yw'r Undodiaid proffesedig ond megys llond dwrn—Undodiaid Cristionogol feddyliaf, wrth gwrs. Pe rhifid yr Iuddewon a'r Mohametaniaid yn mhlith Undodiaid, byddent yn *respectable* iawn o ran nifer.

JONES—Gwir iawn; ond nid dyna yw safle Mr. Campbell, ac yr wyf fi yn methu ei ddeall. Os nad yw yn Undodwr, nac yn foddlawn i'r enw, fe ymddengys ei safle i mi yn debyg iawn i eiddo'r Undodwr.

THOMAS — Onid oes gan Mr. Campbell berffaith hawl i alw ei hunan wrth yr enw a fyno?

JONES — Oes yn sicr. Gwrthyd efe 'r enw Undodwr fel desgrifiad priodol o'i safle, a hawlia fod yr enw Cristion yn ddigon da ganddo. Nid yw yn caru'r *label* Undodwr.

EVANS — Os yw gwaedgwn yr eglwys wedi trwyno heresi, gwae fe fydd hi. Ni fydd heddwch iddo pa un a gydnebydd efe 'r enw neu ni wna. Y gwaedgwn eglwysig wnaeth yr enw Undodwr yn amhoblogaidd yn yr hen amser gynt. Yr oedd Undodwr yn eu tyb hwy yn waeth na llofrudd, yn waeth na lleidr. Ac eto ymddengys yr enw i mi, nid yn

unig yn ddiniwed, ond yn un ardderchog iawn. Ond y mae yn enw cas yn ngolwg y lluaws. Pa amharch bynag a berthyn iddo, fodd bynag, fe 'i cysylltwyd ag ef gan yr enwadau poblogaidd oeddynt yn awyddus i daflu anfri ar enwad sydd wedi bod o wasanaeth i ddynoliaeth llawn cymaint yn ol ei rif a'r un enwad arall yn Nghymru. Eto mae 'n ddrwg calon genyf fi am y picil y mae Mr. Campbell wedi syrthio iddo. Daw i wybod rhywbeth yn awr am yr hyn y mae hen Undodiaid ffyddlon y gorphenol wedi gorfod myned trwyddo.

THOMAS—Wel, Undodwr wyf fi fy hunan, ac yr wyf yn falch o'r enw, a gobeithio na feddylia neb Undodiaid yn awr, pan y mae'r enwad wedi brwydro a dyoddef dros gant a haner o flynyddoedd, am symud yr enw oddiar y faner pan y mae'r llifeiriant meddyliol yn rhedeg yn gryf yn ein cyfer. Y mae Undodiaeth yn wir, deled a ddelo o'r enw, ac y mae'r pwnc be sy wir o fwy pwys na'r un pwnc o gyffes neu gredo.

EVANS—Gan nad beth am hyny, gadewch i ni glywed tipyn o hanes y cateceiso.

JENKINS—O leiaf, mae'n amlwg hyn, fod y rhai sy'n codi'r cri o heresi yn ystyried mai Undodwr yw.

JONES—Gwir iawn, Dafy Jenkins; ond dyma un pwynt pwysig y carwn eich sylw iddo. Fe ddywed Mr. Campbell yn groew nad yw'r syniad i Iesu gael ei eni heb un tad ddim yn wir.

EVANS—Wel, fe ddywedodd Dr. Priestley yr un peth yn agos i 150 o flynyddau yn ol, ac ymddengys i mi yn beth rhesymol iawn.

JONES—Fe ddywed, nad beth yw Iesu yn awr, mai peth sicr yw nad oedd yn ogyfuwch a Duw pan ar y ddaear.

EVANS—Rhesymol eto.

JONES—Fe gred nad yw stori'r codwm ddim yn wir yn yr ystyr lythyrenol; mai llenyddiaeth yw, ac nid *dogma*. Cais oes fore yw i gyfleu addysg foesol i ddyn.

EVANS—Nid wyf yn sicr fy mod yn deall; ond yr wyf yn sicr o hyn, nad oes yr un teimlad o euogrwydd ynw i oblegyd i Adda ac Efa fwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig. Eu busnes hwy yn unig oedd hyny.

JONES—Ymwrthyd yn gyfangwbl a'r esponiad cyffredin o'r Athrawiaeth o Haeddiant, fod arall yn cael ei geryddu am ein bai ni.

EVANS—Beth yn fwy rhesymol? Credaf fi eiriau Paul y caiff pob un ddwyn ei faich ei hun. Pa beth bynag a haua dyn, hyny hefyd a fed efe.

JONES—Cred y bydd i bob enaid yn y pen draw gael ei berffeithio.

EVANS—Dyna oedd cred Gwilym Marles onide?—

"Ond credu wnaf, mai da a fydd,
Ryw ddydd yn mhell—i bawb ryw ddydd,
Y try pob gaua'n wanwyn gwyrdd.

THOMAS — Sut arall y gellir meddwl am gyflawniad disgwyliad yr Apostol Paul—"Yna y bydd y diwedd," &c.

JONES—Y mae Mr. Campbell yn credu y bydd ymwybyddiaeth bersonol dyn yn parhau ar ol y cyfnewidiad mawr hwnw a elwir marwolaeth.

EVANS—Beth yw hyny, ond ei fod yn credu mewn anfarwoldeb?

JONES—Cred fod y syniad hwnw yn cael ei gadarnhau gan ffrwyth ymchwiliadau y *Psychical Society*.

EVANS—Ni wn i ddim llawer am y *Psychical Soeiety* a'r hyn a ddysgir gan Ysprydegiaeth; a deallaf fod Syr Oliver Lodge a Syr William Crookes yn Ysprydegwyr. Ond yr wyf yn credu mewn anfarwoldeb a'm holl galon.

JONES—Y mae Mr. Campbell wedi traethu ei farn yn groyw iawn ar y Codwm, ar Bechod, Cyfiawnder, Uniondeb, Sancteiddrwydd, Cariad. Er yn blentyn y mae wedi cashau athrawiaeth y penill,—

"Nothing either great or small,
Nothing sinner, no;
Jesus did it, did it all
Long, long ago."

DAVIES—Yr wyf wedi gwrandaw ar yr ymddyddan gyda dyddordeb mawr, ac ymddengys i mi fod Mr. Campbell yn ddyn gwrol a gonest; ac os glyna ei eglwys wrtho drwy y berw presenol, fe geir gweled cyfnewidiad mawr yn ansawdd y dduwinyddiaeth boblogaidd cyn pen deng mlynedd. Yr wyf yn cofio twrw Colenso a Darwin, ond y mae'r wlad yn oleuach heddyw ac yn addfetach i dderbyn addysg newydd. Y mae yn syn fel mae Cymru wedi gallu myned yn mlaen mor hir fel pe na byddai'n gwybod dim am addysg y Gwyddorau, na dim am y goleuni newydd y mae'r Uwchfeirniadaeth wedi ei daflu ar y Beibl. Os yw Cymru i gael ei hachub rhag diluw anffyddiaeth noeth, rhaid i hyny gymeryd lle drwy bregethu ffurf o grefydd fydd yn gyson a gofynion gwyddor a rheswm a chydwybod a deall da. "Yn ol at Iesu," yw'r cri i fod eto—at sylfaenydd gogoneddus y bregeth ar y mynydd. Nid yw'r hyn gyflawnwyd gan Iesu "Long, long ago" i'w gymeryd yn esgus dros i ni beidio cyflawni pob dyledswydd ofynir oddi wrthym heddyw. Ysprydol ac nid materol oedd gwaith mawr Iesu, ac y mae'n myned yn y blaen hyd heddyw. Presenoldeb yspryd Iesu yn yr eglwys—mae'n parhau i achub. Ceisiwn ninau feddianu cyfran o hono fel y gallwn helpio'r gwaith da yn y blaen.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD.

AT Y GOLYGWYR.

Foneddigion,—A ydych ch'i wedi sylwi fel y mae'r gwaedgwn yn cyfarth? Y maent wedi trwyno heresi, ac y mae pob argoel y ceir helfa fywiog. Pa beth ddigwydd i'r heretic, dybiwch? A ddianga efe? Doniol yw clywed y swn. Meddyliwch am y Dr. R. N., o bawb, heretic ei hunan yn ol rhai, yn tybio'n ddyledswydd arno i waeddi gyda'r dorf nad yw Mr. R. J. Campbell ddim wedi cael *training* mewn duwinyddiaeth. Dyg hyn i gof rhai o honom ddygwyddiadau dwy fil o flynyddau yn ol, ac i ofyn paham y darfu i Dduw guddio rhai pethau oddiwrth y doethion a'r deallus a'u dadguddio i rai bychain (babanod). Paham yr anwybyddodd Iesu, wrth ethol ei apostolion, Rabbiniaid dysgedig y colegau, gan ddewis yn hytrach bysgotwyr tlodion ac anwybodus glanau môr Galilea? Sut y digwyddodd hi i'r Iesu gael ei ddysgyblion, fwyaf o honynt, nid o blith y Saduseaid call a chyfoethog, ond o blith y mwyaf cyffredin o'r Phariseaid? Sut y methodd Paul sefydlu eglwys yn Athen, dinas yr athronwyr a'r philosophyddion, ac y llwyddodd yn Corinth—dinas fasnachol? Sut y dygwyddodd fod Dr.R.N., ac eraill o'i wrthwynebwyr, yn camddeall Mr. Campbell, yn y lle cyntaf, ac yna yn ei gamddarlunio, braidd ar bob pwynt y gwahaniaethant oddiwrtho? Onid yw yn ffaith fod y *training* yn y credoau a'r cyffesion ffydd,—mewn gair, mewn hollti blew duwinyddol yn rhoddi math o dwist i'r meddwl sydd yn ei analluogi i weled y gwirionedd pan y gosodir ef gerbron mewn gwisg syml a diaddurn? Y mae R. J. Campbell yn yn A.C. o un o brif athrofeydd Prydain Fawr. Cofier cymaint a hyny.

B.C.D.

PRIODAS.

IONAWR 26, yn yr Eglwys Undodaidd yn Merthyr Tydfil, R.J.J. yn gwasanaethu, Henry Howell Evans, o Clydach Vale â Mary Lewis, o Harriet Street, Aberdar.

Rhoed Duw ei fendith ar y ddau—
Y ddau sydd 'nawr yn un ;
Fel gallont fyth o hyd barhau
Mewn undeb yn gytûn :
Ac yma'u cartre'n gysgod boed
O'r nefol gartref cu ;
A phan yn gadael hwn, O rhoed
Duw iddynt gartref fry.

MARWGOFION.

RHAGFYR 23, yn 73 mlwydd oed, Mrs. Elizabeth Jenkins, Dolwern, Llanfihangel Ystrad, gynt o Glanwern, yn yr un plwyf. Yr oedd wedi cael iechyd da drwy ei hoes, a thorwyd hi lawr yn y diwedd yn dra disymwyth. Benyw ddiwyd, ddidwrw, heddychlawn â phawb, a ffyddlon yn ei holl gysylltiadau oedd Mrs. Jenkins. Yr oedd yn amlwg ar ddydd ei hangladd fod iddi hi a'i phlant a'i phertbynasau barch mawr. Yr oedd yr hin yn oer a garw, ond daeth tyrfa fawr yn nghyd. Claddwyd ei gweddillion y dydd Gwener canlynol yn mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. D. Evans, Cribyn, a B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn. Gadawodd chwech o blant, un chwaer, a nifer luosog o berthynasau ereill mewn galar ar ei hol.

RHAGFYR 28, baban i Evan a Margaret Jones, Wern View, Cribyn. Claddwyd yn mynwent Cribyn.

RHAGFYR 31, yn 76 oed, Jane, priod Mr. James Davies, Pwllgravel, Capelcynon. Claddwyd y Gwener canlynol yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. Lloyd, Ficer Capelcynon, yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. E. O. Jenkins a D. James, Rhydybont. Caffed y priod a'r plant nerth i alaru fel rhai yn meddianu gobaith—gobaith am ail-gyfarfyddiad.

IONAWR 6, yn 72 mlwydd oed, Jenkin Jenkins, Blaenplwyf, Llanfihangel-Ystrad. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn y gymydogaeth. Ar gyfrif ei alluoedd a'i barodrwydd i wneud daioni cafodd ei appwyntio i lanw llawer o swyddau. Bu yn aelod dros blwyf Llanfihangel-Ystrad ar Fwrdd y Gwarcheidwaid yn Aberayron, a bu o gymaint gwasanaeth ar y Bwrdd fel y cafodd ei wneud yn gadeirydd iddo. Bu yn aelod ar Fwrdd Ysgol Llanfihangel-Ystrad am ugain mlynedd. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf a etholwyd ar y Cynghor Sirol, a rhoddodd gymaint boddlonrwydd fel aelod ar y Cynghor hwn nes y cafodd ei ddyrchafu i fod yn Henadur. Llanwodd lawer o swyddau eraill. Ar wahan i'r gwasanaeth wnaeth yn y swyddau uchod, yr oedd yn barod bob amser i gynorthwyo pobl mewn anhawsderau. Yr oedd yn nodedig am ei garedigrwydd a'i huanaberth. Yr oedd yn Rhyddfrydwr trwyadl ac egniol ; ar gyfrif

ei wasanaeth i'r achos Rhyddfrydig eto, cafodd ei wneud yn Llywydd Cymdeithas Rhyddfrydig ei sir. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. J. Davies, a chladdwyd yn mynwent Capelygroes. Traddodwyd y bregeth angladdol yn nghapel Rhydygwin gan y gweinidog ar Sul yr 20fed o Ionawr. Gadawodd un chwaer a llu o berthynasau eraill ar ei ol.

IONAWR 11, baban i Griffith a Margaret Jenkins, Glasfryn, Cribyn. Claddwyd yn mynwent Cribyn.

IONAWR 11, yn 42 oed, Samuel Thomas, Llanybyther House, Blaengarw. Ar y dydd uchod tra yn dilyn ei waith yn nglofa yr *Ocean*, Blaengarw, cyfarfyddodd â damwain yr hon drodd yn angeuol iddo. Brodor o gymydogaeth Alltyplaca ydoedd yr ymadawedig ac un oedd wedi parhau yn noddwr da i'r achos yno hyd y diwedd. Mor anfynych y cyfarfyddir â chymeriadau fel hyn, ar ol ymadael â chartref, gofiant yn ymarferol drwy gyfranu at eglwys fechan eu ieuenctyd. Cymerodd yr angladd le y dydd Mercher dilynol i'w farwolaeth. Yr oedd yno dorf aruthrol. Fel dangoseg o'r parch i'r ymadawedig yn Mlaengarw, rhoddodd y ddwy lofa, yr *International* a'r *Ocean* heibio gweithio er rhoddi cyfle i'r gweithwyr fynychu'r angladd. Claddwyd yn nghladdfa gyhoeddus Pontycymmer lle y gorweddai corff merch fechan i'r ymadawedig. Bu y gweinidogion canlynol yn gwasanaethu: y Parchn. Williams (B.), Saunders (B.), Hughes (A.) yn nghyd a D. G. Rees (U.) Penybont. Gadawodd weddw a thri o blant bach mewn galar mawr.

IONAWR 14, yn 85 oed, David Davies, Tycanol, Pantdefaid. Y dydd Iau canlynol claddwyd yn mynwent Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu. Gadawodd mewn galar ar ei ol weddw ac un ferch.

IONAWR 18 yn 43 oed, Elizabeth Jones, merch Rachel Jones, Ffynon Tyssul, Llandyssul. Dynes dawel a distaw ydoedd yr ymadawedig ac iddi barch mawr gan ei chydnabod. Cydymdeimlir yn fawr a'i mham a'i chwaer yn yr amgylchiad chwerw. Y dydd Mawrth dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent eglwys St. John. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas, ac yn yr eglwys gan y Parch. J. R. Jones, ficer.

MANION AC HANESION.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG. — Cynhelir y Cwrdd Chwarterol nesaf yn y Nottais yn ystod wythnos y Pasg, neu o bosibl yr wythnos ar ol hyny. Ymddengys y manylion yn y rhifyn nesaf.

EMYN ROBERT AP GWILYM DDU. —Yr unig bapyr dderbyniwyd oedd eiddo Mr. D. R. Davies, ysgolfeistr, Cwrtnewydd. Pasiwyd ei fod yn wir deilwng, ond nid ydym wedi derbyn y feirniadaeth oddiwrth y Parch. R. J. Jones. Caiff y papyr a'r feirniadaeth ymddangos yn y nesaf, gobeithiwn.—GOL.

WELLINGTON, N.Z. — Mae'r eglwys Undodaidd newydd yn cael dylanwad bendigedig ar gylch eang o'r trigolion. Y mae'r gweinidog, y Parch. Tudor Jones, yr hwn sydd newydd ddyfod yma o'r hen wlad, yn hyawdl, yn ymarferol, ac yn boblogaidd.—W. J. COLVILLE yn *Night*, 12/1/1907.

CEFN COED.—Ar y nos olaf yn yr hen flwyddyn cynhaliodd pobl ieuainc yr eglwys eu gwyl dê—*the social tea*, fel y gelwir ef—ac, fel arfer, trodd allan yn llwyddiant mawr. Daeth lluaws mawr yn nghyd, ac ymddangosai pawb wrth eu bodd. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod cyhoeddus o adrodd, canu a chystadlu yn y capel o dan lywyddiaeth y brawd gweithgar Mr. John Simon. Yr oedd digon o "*go*" yn y cystadleuaethau, ac yr oedd rhai o honynt yn hynod o dda a dyddorol. Beirniadwyd i foddlonrwydd cyffredinol gan Mr. J. R. Evans ar y traethodau, a chan Mr. John Lewis a Mr. J. R. Evans ar y canu a'r adrodd. Yr oedd yn bleser gwrando ar y plant bach yn adrodd ac yn canu; ac yr oedd ôl triniaeth faith a gofalus ar y ddadl fawr a ddygid yn mlaen gan y plant o dan arweiniad Miss Barbara Morgan. Mae clod mawr yn ddyledus iddi.—UN O BLANT YR YSGOL.

PENYBONT.—Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Calan i wobrwyo plant yr Ysgol Sul â llyfrau am fynychu yr ysgol yn ystod y flwyddyn. Cafwyd hefyd dê a bara brith ac awr o adloniant trwy ganu ac adrodd. Eisteddodd 53 o blant wrth y byrddau, a tua 45 o rai mewn oed. Y gwragedd fuont yn gwasanaethu wrth y byrddau oeddynt Mrs. Evans, Mrs. Jenkins, Sunnyside; Mrs. Moore, Mrs. Toosmore, Miss MacKenzie, Mrs. Jenkins, Coity Fields; Mrs. Derrick a Mrs. Rees. Rhanwyd ar yr un dydd drysorfa Banc Cynilo yr Ysgol Sul. Y mae yr Ysgol Sul yma, er yn fechan, yn addawol, a'i rhagolygon i fod yn ddefnyddiol yn ddisglaer.

BLAENGARW. — Nos Sadwrn, Rhagfyr 15fed, traddododd y Parch. D. G. Rees, Penybont, ddarlith yn y *Workmen's Hall* ar 'Iolo Morganwg: Bardd ac Hynafieithydd,' i gynulleidfa gymedrol o rif. Mr. W. T. Morgan, M.E., goruchwyliwr yr *International Colliery*, yn y gadair. Canodd cor o bobl ieuainc o Flaengarw ddwy waith. Yr elw tuag at gynorthwyo Ioan Stephens, glowr o'r lle, yr hwn sydd wedi bod am amser maith yn analluog i ddilyn ei waith trwy afiechyd. Da genym ddeall fod swm sylweddol wedi ei wneud. Ar derfyn y ddarlith fel hyn y canodd Ffrwdwylltog:—

"Diolchgarwch i'r darlithydd,
Diolch cynes roddwn 'n awr
I'r Parch. Rees, fel gwir ffraethebydd,
A amlygodd allu mawr:
Tynodd ddarlun cain â'i bwyntil
O anwylddyn Cymru fu—
Enw eto sydd yn anwyl
Gyda llu o Gymry sy'.

Ceisiwn lwyrach efelychu,
Efelychu gwyr mor dda;
Yn eu hoes fu'n gwasanaethu,
Ac yn gwasgar yspryd wna
Godi plant ein gwlad i fynu,
A'u hyfforddi hwy i fyw;
Fel yr enwog "Iolo" fwyngu,
Garodd Walia, garodd Dduw.

LLWYNRHYDOWEN.—Cyfarfu Ysgolion Sul Capelyfadfa a Llwynrhydowen yn y lle uchod prydnawn dydd Nadolig yn weddol gryno i fyn'd drwy eu pwnc, Luc x. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mr. James Davies, a holwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod cystadleuol yn yr hen gapel o dan lywyddiaeth Cad. Davies. Daeth torf fawr yn nghyd; ac er nad oedd y cystadleuaethau yn bobpeth a garem, cafwyd noson hwylus.

Bellach mae Mr. Herbert Jones wedi dechreu ar ei yrfa fel myfyriwr ar gyfer y weinidogaeth yn Ysgol Ramadegol Pencader. Sul 13eg, datganodd y Parch. E. O. Jenkins a Cad. Davies eu dymuniadau da iddo dros yr eglwys. Llwyddianus fydddo'r daith.

Y GRAIG (Trebanos).—Da genym allu hysbysu fod yma agwedd lewyrchus iawn ar yr achos yn y lle uchod. Y mae gweinidogaeth y Parch. W. Alfa Richards yn cael dylanwad neillduol ar y gynulleidfa. —Prydnawn y Nadolig cawsom y *Christmas Tree* fel arfer, pryd y cyflwynwyd teganau i'r plant bychain a mawrion; hefyd, cyflwynodd y

gweinidog lyfrau gwerthfawr i dros 60 o ddeiliaid yr Ysgol Sul am eu ffyddlondeb yn mynychu yr ysgol yn y flwyddyn ddiweddaf. Cafodd pawb eu boddloni. Gwnaeth y ddwy chwaer, Misses Lizzie Lewis a Rachel Ann Bowen, drefniadau ardderchog eleni eto ar gyfer y *Christmas Tree;* casglasant yn dda a phrynasant deganau a llyfrau pwrpasol iawn at wasanaeth deiliaid yr ysgol.—Hwyr Nadolig yr oedd yr ysgoldy wedi ei orlenwi er gwrando y plant a'u cyn-orthwywyr yn myned drwy yr *Operetta* ("*The Holiday on the Sands*"). Cymerwyd y rhanau i fyny gan Mri. David Davies, W. J. Williams, L. H. Morgan, J. J. Williams, Mrs. Hodge, a Miss E. Rees. Yr oedd y cor yn rhifo oddeutu 60, a'r oll dan arweiniad y brawd ieuanc Mr. Henry H. Morgan. Cyfeiliwyd yn fedrus dros ben gan Master Isaac Emlyn Hopkin. Cafodd pawb eu boddloni tu hwnt i'w disgwyliadau goreu, a gofynwyd rhoddi ail berfformiad o'r llyfr y nos Sadwrn dilynol yn yr un lle. Melus moes mwy.

ARHOLIAD Y GYMDEITHASFA.—Cwyna y Parch. J. Williams, Brynsiencyn, un o'r arholwyr, fod y *result* yn hollol anfoddhaol, ac mai dim ond ychydig iawn o'r ymgeiswyr am y weinidogaeth yn y gogledd ddangosent unrhyw addewid fel duwinyddion ac esponwyr. Mae gan yr *underdog* rywbeth i ddweyd mewn atebiad ac o bosibl nad yw e'n ergyd yn ei le. Ysgrifena "Ymgeisydd" i'r *Goleuad* yr wythnos ganlynol, ac awgryma fod yna *change of front* wedi cymeryd lle oddiar pan y bu Mr. Williams yn dysgu ei dduwinyddiaeth. Mae gan Mr. Williams a llawer eraill gyfle ardderchog i wybod am y *change* yn y dyddiau rhyfedd hyn.

YR HEN DESTAMENT A'R 'VIRGIN BIRTH.'—Cyfeiriasom yn Nodion y Mis at lyfr gan Dr. Orr, o Glasgow, "*The Problem of the Old Testament.*" Mae i'r llyfr hanes dyddorol. Ysgrifenwyd ef ar gyfer cystadleuaeth yn America. Teimlai rhyw fwrdd cenhadol neu rywbeth tebyg yno, a digon o arian ganddynt yn y drysorfa, ei bod hi'n bryd i amddiffyn Moses ac i osod ryw atalfa ar rwysg gorchfygol y Philistiaid a wnaent y fath *havoc* ar yr hen syniadau am y Beibl. Cynygiodd wobr o ddwy fil o ddoleri am y traethawd goreu ar yr Hen Destament yn ei berthynas a beirniadaeth ddiweddar. Golygai nodwedd ac amcan y Bwrdd fod yr awdwr buddugol i gymeryd yr olwg uniawngred, amddiffynol ar y Beibl. Yr oedd ysgolheigion goreu Ewrop ac America allan felly o'r gystadleuaeth. Ail-argraffiad ydyw o 'stori eisteddfod Llangollen yn 1858, pan y cynygiwyd gwobr ar "Ddarganfyddiad America, gan Madog." Profodd Thomas Stephens, Merthyr, mewn traethawd gorchestol na fu Madog erioed yn Amerig ond ni chafodd y wobr am iddo gymeryd safle wrthwynebol i awdurdodau'r Eisteddfod. 'Does neb heddyw sydd yn gwybod am y mater yn credu fel y gwnai y pwyllgor. Setlwyd y cwestiwn am byth. Daw amser yn fuan hefyd pryd y credir fod cwestiwn Moses a'r Hen Destament wedi ei setlo. Dywedir hyd yn nod yn awr fod diogelwch yr hen syniadau yn ymddibynu ar ffyddlondeb ryw gwpwl o Scotiaid. Ffaith arwyddocaol ydyw fod Dr. Orr wedi derbyn gwahoddiad o'r Unol Daleithau i ddarlithio ary *Virgin Birth—burning question* y dyddiau hyn, pan mae dadl yr Hen Destament yn dechreu llonyddu. Onid yw yn rhyfedd fod yn rhaid croesi'r Atlantic i gael dyn cymhwys at y gwaith?

UNDODIAETH YN DYFOD I'W HEIDDO.—Yn y diweddaf o Nodion y Mis dyfynasom lythyr a ymddengys i ni yn arwydd o well amser. Ychydig *gredit* mae Undodiaeth wedi dderbyn trwy y blynyddau am y safle a gymer, y gwaith a wna, ac yn neilluol y sgorn, yr erlid a'r sarhad sydd wedi eu pentyru arni trwy holl gyfnod ei hanes. Gallasem ddisgwyl ryw fesur o gydnabyddiaeth oddiwrth arweinwyr y Dduwinyddiaeth Newydd yn neilluol; ond yn

hytrach yn elynol a chwerw mae eu hagwedd wedi bod. Mae Mr. Rhondda Williams yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus, ond nis gwyddom am un gair calonog o'i eiddo mewn ffordd o deyrnged i Undodiaeth fel *force* grefyddol yn y byd ac mewn llenyddiaeth. Rhaid myn'd drosodd i'r Unol Dalaethau—cartref Channing, Emerson, Parker, Longfellow, Holmes, &c. i gael gwerthfawrogiad teilwng o'u gwasanaeth yn natblygiad y meddwl a'r bywyd crefyddol. Mae y Dduwinyddiaeth Newydd yn flodeuog yno hefyd, a'i phrif arweinydd yn Boston a'r pregethwr blaenaf yn y ddinas ar hyn o bryd yw Dr. George A. Gordon, gweinidog Eglwys yr Old South—y brif Eglwys Gynulleidfaol yn Boston. Dyfynwn y brawddegau canlynol o eiddo Dr. Gordon: — "Diangenrhaid ydyw dweyd fod pob gair a ysgrifenaf er anrhydedd ac mewn diolchgarwch am y symudiad mawr meddyliol ag mae ei allu er daioni wedi bod mor fawr, ond oddiwrth syniad yr hwn am Grist yr ydwyf fi yn gwahaniaethu. Fel Trindodwr ffyddlon llawenhaf i gydnabod y lles sydd wedi deilliaw i'r Eglwys Gristionogol oddiwrth y safle Undodaidd. Nis gall un dyn crefyddol deallus fethu anrhydeddu ei chenadwri gyda golwg ar Dadolaeth Duw; dynoliaeth wirioneddol ac o ganlyniad dwyfol ein Harglwydd; swyddogaeth hanes fel dadguddiad o Dduw; lle y Beibl yn nghanolbwynt hanes crefydd, ac iachawdwriaeth fel gweithrediad moesol o dan arweiniad Ysbryd Duw. * * * Mae ei gwrthdystiad wedi bod yn iachus, ar raddfa fawreddog, ac yn rhagluniaethol. Mae Undodiaeth yn rhwym o dderbyn cydnabyddiaeth eangach a mwy diolchgar am ei gwasanaeth anrhydeddus. Yn ei syniad am ddyn fel wrth natur yn gydweithiwr a Duw oblegid ei fod yn fab Duw, mae Undodiaeth wedi adferu un o draddodiadau mawrion y ffydd Gristionogol, a dylai y gwasanaeth neillduol a bendigedig hwn gael ei gadw ar gof am byth."—*The Christ of To-day*," tud. 36; "*The new Epoch for Faith*," tud. 286.

GWAED CRIST.—Mewn pregeth o waith Owen Williams, Towyn Meirionydd, ac a gyhoeddwyd yn Aberystwyth yn 1834, ceir y tipyn heresi a ganlyn. Pwy oedd Owen Williams? A ddygwyd ef i brawf am ei syniadau? Beiwyd llawer ar yr Undodiaid am ddywedyd peth tebyg. "Yr oedd yn ddiweddar yn pregethu (yn ol ei feddwl ef) am rinwedd gwaed Crist, ac yn dywedyd wrth ei wrandawyr nad oedd dim mwy o waed yn ngwythienau corph Crist, nag sydd o waed yn ngwythienau corph rhyw ddyn arall, ond fod yn ngwythienau corph Crist er hyny ddigon o waed i olchi holl bechaduriaid y byd i gyd; gan hyny, meddai ef, y mae'n rhaid fod defnyn bychan iawn o waed Crist yn ddigon i olchi un pechadur! Yr oedd y gwr druan yn dychmygu mai y llifnodd coch a ddaeth o wythienau corff Crist sydd yn cael ei gadw mewn cawg yn y nefoedd, wrth law gan yr Ysbryd Glân, ac mai hwnw, yn ol y gronynau lleiaf sydd yn cael ei gymhwyso at bechaduriaid i'w golchi!" . . . "Pe buasai dyn wrth y groes pan oedd Crist yno yn gwaedu, a'i fod yn bwyta ei gnawd sanctaidd ac yn yfed ei waed i gyd o'i wythienau, ni fuasai bwyta cnawd ac yfed gwaed Crist yn yr ystyr hwnw yn gwneud dim mwy o les iddo na phe buasai yn bwyta cnawd ac yfed gwaed rhyw un arall."

CYMDEITHAS UNDODAIDD MORGANWG.—Cynhaliwyd cwrdd chwarterol yn Nghapel Pentre Rhondda, Ionawr 21ain. Llywydd, y Cynghorwr L. N. Williams, Aberdar. Yr oedd nifer fawr o gynrychiolwyr o'r eglwysi wedi dyfod yn nghyd. Penderfynwyd yn y Pwyllgor, fel cydnabyddiaeth o'r gwaith da sydd wedi ei wneud yn Mhenybont i ychwanegu £10 at gyfran flynyddol y Gymdeithas i gyflog y gweinidog, ar y telerau fod y gynulleidfa yn gwneyd yr un peth. Hefyd taer gymhellir y *B. & F.* i ychwanegu £10 at eu cyfran hwy. Felly bydd cyfanswm yr ychwanegiadau yn £30.

Drwg gan y pwyllgor dderbyn yr adroddiad fod y gwasanaeth yn Tylorstown wedi ei roddi i fyny am y presenol. Pleidleisiwyd tanysgrifiad o ddeg swllt i'r Cynghor Cenedlaethol. Apwyntiwyd y Mri. L. N. Williams a Gomer Thomas yn gynrychiolwyr y Gymdeithas yn Nghynadledd Boston mis Medi nesaf. Derbynia y Gymdeithas gynyg y Parch. Joseph Wood, o Birmingham, i anerch cyfarfodydd yn ein heglwysi yn ystod yr haf nesaf. Ar gynygiad Mr. J. R. Evans penderfynwyd fod adroddiadau o gyfarfodydd y Gymdeithas hon i ymddangos o hyn allan yn YR YMOFYNYDD. Rhoddwyd derbyniad gwresog i'r Parchn. Hugh Robinson a W. Alfa Richards, y blaenaf yn weinidog gyda'r Bedyddwyr hyd yn ddiweddar, a'r olaf gyda'r Anibynwyr. Cymer Mr. Robinson ofal o'r eglwys yn y Wig, a Mr. Richards o Gellionen a Threbanos. Yn yr hwyr cafwyd gwasanaeth cyhoeddus a phregethwyd yn Saesneg gan y Parch. W. Whitaker, B.A., Caerdydd. "*Gospel for our Times*" oedd ei bwnc. Pregethwyd yn Gymraeg gan y Parch. M. Evans, Aberdar. Ei bwnc ef oedd 'Credo, credu a charu.'

UNDEB EGLWYSI UNDODAIDD CEREDIGION. — Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r uchod yn Nghapelybryn, Cwrtnewydd, Ionawr 9fed, pryd y daeth cryn ddeugain o gynrychiolwyr yn nghyd o wahanol eglwysi yr Undeb. Dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. E. O. Jenkins, a chafwyd ychydig eiriau pwrpasol gan y Llywydd, y Cadben Davies. Yna darllenwyd papyr rhagorol gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, ar "Gyflenwad y Weinidogaeth," a dilynwyd ef gan bapyr da arall gan Mr. David Davies, Gwarcefel Arms, Pantdefaid. Ei bwnc ef oedd, "Pa fodd y mae cael pobl mewn oed i deimlo dyddordeb yn ngwaith yr Ysgol Sul." Ar ol y papyrau hyn cafwyd ymdrafodaeth faith ar y ddau bapyr er mai yr olaf dderbyniodd y sylw mwyaf. Awgrymwyd gan rai y priodoldeb o gael cynlluniau newyddion i fewn i'r Ysgol Sul, fel y byddai yn fwy o atdyniad i'r rhai esgeulusant fynychu yn awr, ac awgrymwyd gan eraill mai nid ar y cynlluniau mae'r bai ; ond ar ddiffyg brwdfrydedd a sel grefyddol yn y gwaith. Pe buasid yn gallu creu y nodweddion hyn ynom, yna gwnai'r brwdfrydedd esgor ar gynlluniau llwyddianus i ateb anghenion pob lle. Cytunwyd ar fod y gweinidogion i alw sylw pobl eu gofal at y diftyg dyddordeb ddangosir yn ngwaith yr Ysgol Sul. Wedi gorphen ymneillduwyd i'r Hen Ysgoldy, lle yr oedd pobl dda Capel-y-bryn wedi gwneud parotoadau helaeth ar gyfer y dieithriaid. Etholwyd Mr. Saunders Davies, Felinfach, yn Llywydd, a'r Parch. L. Williams, Rhydygwin, yn Ysgrifenydd am y flwyddyn nesaf. Pregethwyd yn yr hwyr gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

PANTDEFAID.—Diau mai da fydd gan gylch helaeth i ddeall fod y cyfeillion yn Mhantdefaid yn brysur wrth y gwaith o helaethu y fynwent. Yr oedd yr hen fynwent yn prysur lanw ac ychydig iawn o dir oedd heb ei gymeryd i fyny. Er fod y tir newydd wedi ei roddi yn rhad ac am ddim gan y Parch. T. Thomas, Y.H., a Mrs. Thomas, Green Park, eto y mae yna lawer o draul ar y gynulleidfa i'w gau i mewn, a llawer o waith arall sydd raid ei gyflawni. Apelia'r gynulleidfa'n garedig at y teuluoedd hyny sydd a'u perthynasau a'u hanwyliaid yno yn gorphwys. Nid oes yr un tâl yn cael ei ofyn ar neb wrth gladdu, a'r unig gydnabyddiaeth ofynir ydyw ychydig help yn awr o dan yr amgylchiadau presenol. Derbynir y rodd leiaf fel y fwyaf gyda diolchgarwch gan y Trysorydd, Mr. L. T. Thomas, Gyfeile ; yr ysgrifenydd, Mr. J. Thomas, Fronwen ; neu'r Gweinidog.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol.

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground; Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums, Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.